# YR ATODLEN

Erthygl 2

## CANLLAWIAU I AWDURDODAU GORFODI WRTH OSOD TALIADAU AM DRAMGWYDDAU PARCIO

### Taliadau cosb

**1.**—(1) Rhaid gosod taliadau cosb ar gyfer tramgwyddau parcio—

(a) ar gyfer tramgwyddau lefel uwch, ar y lefel a bennir yng ngholofn (2) yn un o'r bandiau yn Nhabl 1; ac

(b) ar gyfer pob tramgwydd arall, ar y lefel a bennir yng ngholofn (3) yn y band yn Nhabl 1 a ddewisir ar gyfer lefelau uwch o dramgwyddo.

(2) Rhaid gosod y lefel disgownt ar gyfer taliad cosb a delir yn gynnar (hynny yw o fewn 21 o ddiwrnodau yn achos taliadau cosb a osodwyd ar sail cofnod a gynhyrchwyd gan ddyfais a gymeradwyir o dan reoliad 6(1)(a) o'r Rheoliadau Gorfodi a Dyfarnu a 14 o ddiwrnodau ym mhob achos arall)—

(a) ar gyfer tramgwyddau lefel uwch, ar y lefel a bennir yng ngholofn (4);

(b) ar gyfer pob tramgwydd arall, ar y lefel a bennir yng ngholofn (5),

yn y band sy'n pennu lefelau'r taliadau cosb.

(3) Rhaid gosod lefel gordal taliad o dâl cosb wedi i dystysgrif codi tâl gael ei dyroddi—

(a) ar gyfer tramgwyddau lefel uwch ar y lefel a bennir yng ngholofn (6);

(b) ar gyfer pob tramgwydd arall ar y lefel a bennir yng ngholofn (7),

yn y band sy'n pennu lefelau'r taliadau cosb.

**Tabl 1**

| *(1) Band* | *(2) Tâl cosb lefel uwch* | *(3) Tâl cosb lefel is* | *(4) Tâl cosb lefel uwch a delir yn gynnar* | *(5) Tâl cosb lefel is a delir yn gynnar* | *(6) Tâl cosb lefel uwch a delir ar ôl cyflwyno tystysgrif codi tâl* | *(7) Tâl cosb lefel is a delir ar ôl cyflwyno tystysgrif codi tâl* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | £60 | £40 | £30 | £20 | £90 | £60 |
| 2. | £70 | £50 | £35 | £25 | £105 | £75 |

(4) Caiff awdurdod gorfodi osod taliadau cosb yn unol â gwahanol fandiau yn y tabl mewn gwahanol rannau o'i ardal, cyn belled â bod pob taliad ym mhob rhan o'i ardal yn cael ei osod yn unol â'r un band.

(5) "Tramgwyddau Lefel Uwch" yw'r rhai hynny a restrir yn yr Atodiad.

### Taliadau am symud ymaith, storio a gwaredu cerbydau

**2.** Y rhai hynny a geir yn nhabl 2 yw'r taliadau y mae'n rhaid eu codi am symud ymaith, storio a gwaredu cerbydau a ganfyddir mewn ardal orfodi sifil.

**Tabl 2**

| *(1)* *Eitem* | *(2)* *Math o daliad* | *(3)* *Swm y taliad* |
|---|---|---|
| 1. | Y taliad am symud cerbyd ymaith | £105.00 |
| 2 | Y taliad am storio cerbyd | £12 ar gyfer pob diwrnod, neu ran o ddiwrnod, pan fydd y cerbyd yn cael ei gadw |
| 3. | Y taliad am waredu cerbyd | £50.00 |

### Rhyddhau cerbyd o afael dyfais i'w rwystro rhag symud o dan Adran 79 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004

**3.** Rhaid i'r tâl taladwy o dan reoliad 9(2)(b) o'r Rheoliadau Darpariaethau Cyffredinol ar gyfer rhyddhau cerbyd o afael dyfais i'w rwystro rhag symud fod yn £40.

### Arbedion ar gyfer pwerau Gweinidogion Cymru

**4.** Nid oes dim yn y canllawiau hyn yn rhagfarnu nac yn effeithio ar bwerau Gweinidogion Cymru o dan baragraff 8(3) o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004 i ganiatáu i awdurdod gorfodi i wyro oddi wrth y canllawiau hyn.

## Atodiad

## RHESTR O DRAMGWYDDAU LEFEL UWCH

**1.** Tramgwydd yn ymwneud â chyflawni trosedd y cyfeirir ato ym mharagraff 4(2)(b) (cyfyngiadau aros a llwytho) i Atodlen 7 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004")

**2.** Tramgwydd yn ymwneud â gadael y cerbyd mewn man parcio ar-y-stryd ac eithrio man a awdurdodir gan unrhyw orchymyn yn ymwneud â'r man parcio yn unrhyw un o'r achosion a ganlyn, neu oddi tano—

(a) heb fod yn dangos permit, taleb neu docyn talu ac arddangos;

(b) mewn man lle mae parcio wedi cael ei atal;

(c) pan fo'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwerthu nwyddau neu gynnig neu arddangos nwyddau i'w gwerthu;

(ch) pan nad yw'r cerbyd yn dod o fewn y dosbarth o gerbyd y caniateir iddo barcio yno.

**3.** Tramgwyddo'r gwaharddiad a osodir gan adran 85 (parcio dwbl etc.) o Ddeddf 2004.

**4.** Tramgwyddo'r gwaharddiad a osodir gan adran 86 (troetffyrdd a ostyngwyd) o Ddeddf 2004.

**5.** Tramgwydd sy'n cynnwys cyflawni trosedd o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff 4(2)(h) o Atodlen 7 i Ddeddf 2004 (troseddau sy'n ymwneud â thraciau beicio).

**6.** Tramgwydd sy'n cynnwys trosedd o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff 4(2)(g) o Atodlen 7 i Ddeddf 2004 (parcio Cerbydau Nwyddau Trymion ar leiniau ymyl, lleiniau canol neu droetffyrdd).

**7.** Tramgwydd sy'n cynnwys trosedd o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff 4(2)(c) (peri i gerbydau aros ar groesfannau i gerddwyr neu gerllaw iddynt) neu 4(2)(i) (llinellau igam-ogam gerllaw croesfannau) o Atodlen 7 i Ddeddf 2004.

**8.** Tramgwydd sy'n cynnwys trosedd o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff 4(2)(i)(ii) o Atodlen 7 i Ddeddf 2004 (marciau ar arosfannau bysiau neu fannau i fysiau sefyll ynddynt).

**9.** Tramgwydd sy'n cynnwys trosedd o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff 4(2)(e) o Atodlen 7 i Ddeddf 2004 (parcio mewn mannau llwytho).

**10.** Tramgwydd sy'n ymwneud â throsedd o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff 4(2)(d) o Atodlen 7 i Ddeddf 2004 (mewn perthynas â man parcio oddi-ar-y-stryd) ac yn cynnwys unrhyw un neu rai o'r canlynol yn sgil gorchymyn yn eu gwahardd mewn perthynas â'r man parcio—

(a) pan fo'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwerthu nwyddau neu gynnig neu arddangos nwyddau i'w gwerthu;

(b) parcio mewn man cyfyngedig;

(c) parcio mewn man i bermit heb arddangos permit;

(ch) parcio mewn man parcio i berson anabl heb arddangos yn gywir fathodyn dilys person anabl;

(d) parcio cerbyd mewn man parcio pan nad yw'r cerbyd yn dod o fewn y dosbarth o gerbyd y caniateir iddo barcio yno.